# Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol

## (Microsoft Teams/Siambr Hybrid y Cyngor)

**Aelodau a oedd yn bresennol:** **15 Rhagfyr 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd C Galsworthy** |
| **Is-gadeirydd:** | **Y Cynghorydd H C Clarke** |
| **Y Cynghorwyr:** | J.Jones, A.R.Lockyer, A.Lodwig, P.D.Richards, M.Spooner, S.Rahaman ac A.R.Aubrey |
| **Swyddogion a oedd yn bresennol** | A Jarrett, A Thomas, K Warren, R Davies, J.Hodges, S.Waite, C.Jones, C.Millis, C.Morris, R.Turner, D.Harding, G.Liley, C.Frey-Davies, M.Potts, N Jones ac A Thomas |
| **Gwesteion y Cabinet:** | Y Cynghorwyr S Harris, A Lockyer a J Hale |

1. **Cyhoeddiad y Cadeirydd**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Datganiadau o fuddiannau**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

3. **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022 fel cofnod gwir a chywir.

4. **Iechyd yr Amgylchedd - Beth yw Niwsans Statudol?**

   Rhoddodd swyddogion y diweddaraf i aelodau mewn perthynas â 'Beth yw Niwsans Statudol?'

   Gofynnodd yr aelodau, o ran hysbysiad atal, beth fyddai'r drefn pe bai rhywun yn mynd yn groes i'r hysbysiad

Eglurodd swyddogion ei fod yn dibynnu ar beth yw'r niwsans, byddai'r hysbysiad yn destun camau cyfreithiol neu erlyniad. Byddai'n dibynnu ar beth yw'r achos penodol - sŵn yw'r un mwyaf cyffredin, sŵn cerddoriaeth o eiddo domestig, mae'n fwy effeithiol i drefnu atafaeliad o'r offer hwnnw sy'n gwneud y sŵn yn hytrach na chynnal gweithdrefn erlyn.
Pan fydd swyddogion yn atafaelu'r offer sy'n gwneud sŵn byddem yn ei gadw am gyfnod a byddai'n rhaid i'r person yr atafaelwyd yr offer ganddo dalu cost resymol er mwyn cael yr offer yn ôl.

Gofynnodd yr aelodau, os oes gan rywun eiddo gwag, ydy'r cynghorydd yn dod at y swyddog yn uniongyrchol? Esboniodd swyddogion fod Iechyd yr Amgylchedd wedi sefydlu system ar-lein ers nifer o flynyddoedd ac maen nhw'n annog bod popeth yn cael ei roi drwy'r system adrodd ar-lein honno oherwydd bydd y cyhoedd yn derbyn hysbysiad ar unwaith gyda rhif cyfeirnod a bydd yn mynd yn syth at y swyddog.

Soniodd yr aelodau eu bod wedi ymdrin â nifer o gwynion ynglŷn â sŵn mewn eiddo a rentir yn breifat - pa fath o bwerau cyfreithiol neu statudol sydd gan awdurdod lleol o dan Ddeddf Iechyd yr Amgylchedd i gynnwys y landlord?

Eglurodd swyddogion fod y camau gweithredu y gallant eu cymryd o ran gwasanaethau hysbysiad atal yn erlyn y person sy'n gyfrifol am achosi'r niwsans statudol. Mae swyddogion yn cynnwys landlordiaid yn y broses ac os oes problem adeileddol neu broblem sy'n gysylltiedig ag eiddo, yna mae'r gyfraith yn dweud mai cyfrifoldeb y perchennog yw'r materion adeileddol hynny.

## 5. **<u>Craffu Cyn Penderfynu</u>**

Cytunodd yr aelodau i graffu ar eitemau 7, 8, 9, 11 a 12 ar agenda Bwrdd y Cabinet.

### **<u>Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion - Adroddiad Perfformiad yr 2ail Chwarter (Ebrill 2022- Medi 2022)</u>**

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn ymwneud â chefndir Adroddiad Perfformiad 2il Chwarter y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a’r Gwasanaethau Oedolion (Ebrill 2022- Medi 2022) ac yn rhoi crynodeb o’i gynnwys.

Gofynnodd yr aelodau, mewn perthynas ag ailgofrestru plant, roedd y dangosydd yn goch - a oedd rhagor o wybodaeth? Eglurodd swyddogion, pan roedd plant yn cael eu hailgofrestru, roedd yna benderfyniad aml-asiantaeth. Byddai ein partneriaid yn ystyried a oes angen rhoi plentyn ar y gofrestr. Pan fydd plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr byddai hynny'n arwain at adolygiad rheolwr a bydd swyddogion yn cael gwybod am yr ailgofrestru.

Gofynnodd yr aelodau, mewn perthynas â phlant sy'n mynd i ofal, a oeddent yn gallu egluro sefyllfa'r argyfwng?
Esboniodd swyddogion fod cynllun gweithredu yr oeddem yn ei ddilyn i gysylltu hawliau plant ar draws y Gwasanaethau Plant ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran cael yr hyn y mae swyddogion yn ei ddisgrifio orau fel nod 'cutan mewn hawliau plant. Pan fydd plant yn mynd i ofal mewn argyfwng, maent yn cael cymaint o wybodaeth â phosib mewn perthynas â lle byddan nhw'n mynd, lle byddan nhw'n cysgu, pwy yw'r gofalwyr maeth etc. Esboniodd swyddogion ei fod yn goch oherwydd roedd gwaith yn cael ei wneud arno ac roedd yr Arweinydd Arfer Ansawdd yn cysylltu ag ymgysylltu, plant sy'n derbyn gofal a maethu i sicrhau bod gan yr holl ofalwyr maeth bortreadau byr etc.
Awgrymodd swyddogion y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor mewn perthynas ag ailgofrestru.

Gofynnodd yr aelodau mewn perthynas â'r amcanion lles, mae'n nodi bod cynnydd sylweddol yn nifer yr asesiadau newydd a gafodd eu cwblhau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a oedd rheswm dros y cynnydd yn y niferoedd?
Esboniodd swyddogion eu bod wedi gweld cynnydd enfawr mewn atgyfeiriadau, a bod galw mawr yn ystod yr argyfwng costau byw. Eglurodd swyddogion fod aelodau ychwanegol o staff i ateb y galw, a'i fod yn rhywbeth a oedd yn cael ei ystyried yn ddyddiol. Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am Bwynt Cyswllt Unigol, roedd swyddogion yn hapus i ddarparu adroddiad ar y pwnc hwn.

Gofynnodd yr aelodau, mewn perthynas â nifer yr adolygiadau hwyr, pam roedd y niferoedd wedi cynyddu 150 ers diwedd mis Ebrill? Esboniodd swyddogion fod y rhain yn derbyn gwasanaethau statudol, roedden nhw naill ai mewn gofal preswyl neu'n derbyn gofal cartref.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**Data Rheoli Perfformiad Chwarterol 2022-2023 - Perfformiad Chwarter 2 (1 Ebrill 2022 - 30 Medi 2022)**

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn ymwneud â chefndir Data Rheoli Perfformiad Chwarterol 2022-2023 - Perfformiad Chwarter 2 (1 Ebrill 2022 - 30 Medi 2022) ac yn rhoi crynodeb o'i gynnwys.

Gofynnodd yr aelodau, mewn perthynas â'r ffigurau, ei fod yn nodi bod pedwar atgyfeiriad newydd yn ystod chwarter un, o le ddaeth yr atgyfeiriadau?

Esboniodd swyddogion fod nifer o bobl o addysg, yr heddlu a gwaith cymdeithasol wedi adrodd ar y pedwar achos. Maen nhw'n mynd i'r heddlu ac yn dod i ofal cymdeithasol awdurdodau lleol ac yna rhyngom ni a gwrthderfysgaeth Cymru, yna bydd swyddogion yn penderfynu ar y camau nesaf neu fydd diogelu bob tro yn bwysicach nag unrhyw fath o ymateb troseddol. Fodd bynnag, byddai'n cael ei wneud ar y cyd â'r heddlu felly ni fyddai'n ymyrryd ag unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu.

Gofynnodd yr aelodau pam roedd y ffigurau'n goch.

Soniodd y swyddogion fod y system yn gweithredu ar 5%, felly os yw'n mynd dros 5% mae'r system yn dangos yn goch yn awtomatig. O ran y ffordd y cafodd y system TG ei sefydlu, pe bai'n mynd dros ymyl o 5% byddai'n newid yn awtomatig i'r categori cyf. Y system ei hun sy'n ei wneud yn goch.

Nododd aelodau'r adroddiad.

**Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr**

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr.

Dywedodd aelodau fod yr adroddiad yn rhagorol.

Gofynnodd yr aelodau, mewn perthynas â Niwroamrywiaeth a LHDTC, a oedd unrhyw gefnogaeth ar gyfer y plant a'r teuluoedd yn enwedig mewn ysgolion. Esboniodd swyddogion eu bod wedi bod yn ffodus eleni a diwedd y llynedd i gael darn o waith a luniwyd gan y bwrdd diogelu iau lle buont yn ymgysylltu â'r gymuned LHDTC+ ac yn datblygu rhaglen LHDTC. Dywedodd swyddogion y gallent gael mwy

o ddealltwriaeth am y math o brofiadau bywyd go iawn sydd gan bobl ifanc ac yn dilyn hynny, roedd dogfen arweiniad wedi cael ei rhannu â'r bwrdd diogelu yn ddiweddar i sicrhau bod yr ymateb i LHDTC yn cael ei ddeall yn well ar draws ysgolion.

Esboniodd swyddogion eu bod yn hapus i rannu'r adroddiadau a'r ddogfen arweiniad â'r aelodau.

Gofynnodd aelodau am y cynllun gweithredu ac roedden nhw'n hapus ei fod wedi ei ddatblygu. Gofynnodd aelodau a oedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar Niwroamrywiaeth, Awtistiaeth neu'r ddau. Esboniodd swyddogion y byddant yn cael rhagor o wybodaeth am hyn ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Gofynnodd yr aelodau, mewn perthynas â'r gwasanaeth 'Diogel ac Iach', pam y mae eu rolau mewn addysg ac nid mewn lles. Eglurodd swyddogion o ran 'Diogel ac Iach', mae'n rhan o'r Gwasanaethau Oedolion, roedd swyddogion yn cysylltu'n agos â thimau a phartneriaethau eraill o ran tlodi bwyd.
Esboniodd swyddogion nad oes angen iddo aros mewn un gyfarwyddiaeth, ac mae mynd i'r afael ag anfantais tlodi yn fusnes i bawb. Os oedd swyddogion am fynd i'r afael â thlodi a thlodi bwyd, y ffordd orau o wneud hynny oedd sicrhau bod gan bobl ddigon o arian yn dod i mewn i'r tŷ ac i wneud hynny, mae angen swydd arnynt. Esboniodd swyddogion eu bod yn gallu gweld pam yr oedd rhywun yn arwain ar Addysg, Tlodi a Sgiliau fel rhan o Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.

Dywedodd yr aelodau fod y cynigion canlynol wedi'u cymeradwyo a'u sefydlu'n llwyddiannus gyda thri chynllun wedi'u cymeradwyo ar gyfer cyllid parhaus. A fyddai'n bosib cael y tri sefydliad i ddod i mewn i siarad â ni am y prosiectau yr oeddent yn eu cynnal? Eglurodd swyddogion eu bod yn hapus i hynny ddigwydd.

Nododd aelodau'r adroddiad.

**Cynllun Prydlesu Cymru**

Cyflwynwyd adroddiad i aelodau a oedd yn ymwneud â Chynllun Prydlesu Cymru.

Gofynnodd yr aelodau a allai swyddogion roi enghreifftiau o adegau lle'r oeddent wedi edrych ar dai gwag a rhoi bywyd newydd iddynt.

Eglurodd swyddogion fod cwpl o gynlluniau gwahanol wedi bod. Cafwyd y cynllun benthyciad eiddo gwag a oedd ar fin dechrau eto lle’r oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi arian ar gyfer gwaith er mwyn sicrhau bod yr eiddo hyn o safon dderbyniol, fel y gellid eu rhentu unwaith eto ac roedd angen i swyddogion wybod pwy oedd y landlordiaid. Gyda rhai o'r eiddo y soniwyd amdanynt gan aelodau, gallai fod y landlordiaid yn absennol ac mae gan iechyd yr amgylchedd ffyrdd amrywiol o geisio dod o hyd i bwy oedd y landlordiaid. Gyda'r cynllun penodol hwn, roedd yn rhaid i'r landlord ddod â'r eiddo i ni ac yna soniodd swyddogion y gallant gynnig arian grant i sicrhau bod yr eiddo o safon dderbyniol hefyd.

Soniodd yr aelodau ei fod yn nodi na fyddai awdurdodau lleol yn gallu ychwanegu at y rhent i berchnogion fel cymhelliant, a yw hynny'n golygu na fyddai swyddogion yn gallu defnyddio taliadau disgresiwn at gostau tai? Eglurodd swyddogion, yn y cynllun hwn, lefel y rhent yw'r lwfans tai lleol, a'r broblem a gawn gyda'r cynllun hwn o bosib yw y gall rhai o'r landlordiaid gael rhent uwch yn y farchnad breifat, ond gyda'r cynllun hwn gellir cael y lwfans tai lleol yn unig.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**<u>Trefniadau Grant ar gyfer Cyllid Darparu Mannau Cynnes</u>**

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn ymwneud â Threfniadau Grant ar gyfer Cyllid Darparu Mannau Cynnes.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y grantiau'n mynd at adeiladau a oedd eisoes ar agor neu a oeddent yn cefnogi'r rhai a fyddai'n agor i greu mannau cynnes. Esboniodd swyddogion mai nhw fyddai eu blaenoriaeth, o ran y rhai a oedd ar agor yn ystod oriau estynedig ac o bosib i sefydlu man cynnes, byddem yn amlwg yn ystyried yr ymgeiswyr o fewn hynny. Fodd bynnag, roeddent yn edrych ar yr hyn roedden nhw'n ei gynnig ac a oedden nhw'n rhan o fusnes fel arfer ai peidio, a pha ychwanegiadau maent yn gofyn amdanyn nhw o ran hynny, felly bydden nhw'n rhan o'r ystyriaeth hefyd.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai hyn yn ymagwedd ar y cyd. Esboniodd swyddogion, o ran datblygu mannau cynnes, roedd y cydlynwyr a'r aelodau wedi bod yn rhan o’u datblygiad, felly roedd swyddogion yn ymwybodol o rai ohonynt ac yn ymwneud yn fwy â nifer ohonynt. Fel rhan o'r hyn maent yn ei wneud, roedd yna gynlluniau i fonitro a chadw diweddariad wythnosol o nifer y bobl a

oedd yn dod i'r lleoliadau ac roedd hynny'n rhan o ofynion y grant gan Lywodraeth Cymru hefyd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

6. **Blaenraglen Waith 2022/23**

Gofynnodd swyddogion a fyddai modd nodi'r eitemau a drafodwyd heddiw yn y Flaenraglen Waith.

7. **Eitemau brys**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**